# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Tachwedd 2020

Amser: 09.02 - 12.21

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/6545

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Hefin David AS<br>Suzy Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Laura Anne Jones AS |
| Tystion: | Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru<br>Rachel Thomas, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Tanwen Summers (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Masudah Ali (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Phil Boshier (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, ond bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.
1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.
1.4 Ni chafwyd dim ymddiheuriadau.

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru.

## 3 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2019 - 2020

3.1 Bu'r Pwyllgor yn holi Comisiynydd Plant Cymru yn fanwl am ei Hadroddiad Blynyddol 2019 - 2020.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2019 - 2020: trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y ddwy sesiwn flaenorol.
6.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at holl fyrddau iechyd y GIG yng Nghymru yn gofyn am eglurhad ar y wybodaeth sydd ar gael ar eu gwefannau am y llwybrau i'w dilyn i gael cymorth a chefnogaeth i blant a phobl ifanc o ran eu hiechyd meddwl, ynghyd â gwybodaeth am sut i hunangyfeirio os oes angen.

6.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch bylchau o ran gofal preswyl i blant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.
6.4 Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg ynghylch cofrestru ar gyfer athrawon mewn ysgolion annibynnol.

## 7 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): ystyried y prif faterion

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y prif faterion ar gyfer ei adroddiad Cyfnod 1. Trafodir adroddiad drafft yn y cyfarfodydd ar 19 Tachwedd a 26 Tachwedd.

## 8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021 - 2022: trafod llythyrau'r Pwyllgor at Lywodraeth Cymru

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y llythyrau drafft.

8.2 Gofynnodd y Pwyllgor tybed a ddylai hefyd ysgrifennu at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch cyllidebau ysgolion yn y setliad llywodraeth leol, ac at y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ynghylch cyllid ar gyfer gweithgareddau i gefnogi addysg, datblygiad a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer plant a phobl ifanc drwy gyfrwng Cymraeg.